**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2006 Rhif 1420 (Cy.141)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Coleg Merthyr Tudful (Diddymiad) 2006

**NODYN ESBONIADOL**

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg Merthyr Tudful. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo ei eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau i Brifysgol Morgannwg ac yn sicrhau hawliau ei gyflogeion drwy gymhwyso adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1420 (Cy.141)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Coleg Merthyr Tudful (Diddymiad) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *17 Mai 2006* |
| *Yn dod i rym* | *18 Mai 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") wedi cael cynnig oddi wrth Gyngor Cenedlaethol Cymru Dros Addysg a Hyfforddiant, a wnaed yn unol ag adran 51 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**)("y Ddeddf"), i ddiddymu'r gorfforaeth addysg uwch a elwir yn Goleg Merthyr Tudful ("y Coleg")(**2**) o dan adran 27 o'r Ddeddf;

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 27 o'r Ddeddf ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**3**), mae'r Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Coleg a chyda chydsyniad y gorfforaeth addysg uwch a elwir yn Brifysgol Morgannwg(**4**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Merthyr Tudful (Diddymiad) 2006 a daw i rym ar 18 Mai 2006.

**2.** Ar 18 Mai 2006 mae'r Coleg i gael ei ddiddymu a'i holl eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau i gael eu trosglwyddo i Brifysgol Morgannwg, sy'n gorff corfforaethol a sefydlwyd at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgiadol.

**3.** Mae adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf i'w chymhwyso i unrhyw berson sy'n gyflogedig

(**1**) 1992 p.13.
(**2**) A sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).
(**3**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**4**) A sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Uwch) (Cymru) 1991(O.S. 1991/1976) dan yr enw Polytechnig Cymru ac a newidiodd ei enw yn ddiweddarach i Brifysgol Morgannwg.

gan y Coleg yn union cyn 18 Mai 2006 fel petai cyfeiriadau yn yr adran honno–

(a) at berson y mae'r adran honno i'w chymhwyso iddo yn gyfeiriadau at berson a gyflogid felly;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 18 Mai 2006;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at y Coleg; ac fel petai

(ch) cyfeiriadau at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Brifysgol Morgannwg.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

17 Mai 2006

Rhodri Morgan

Y Prif Weinidog

(**1**) 1998 p.38.